Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol
Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

22 Hydref 2020

Annwyl ddau

Torri'r rheol 21 diwrnod

Yn ein cyfarfodydd ar 5, 12 a 19 Hydref 2020 gwnaethom ystyried **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020**, **Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020**, **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020**, a **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020**.

Roedd ein hadroddiad dilynol yn nodi bod yr offerynnau wedi'u gosod **gan dorri'r rheol 21 diwrnod**, a'r rhesymau dros wneud hynny, fel y'u nodwyd yn llythyrau'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd.

Rydym wedi nodi 12 achos lle torrwyd y rheol ers ein cyfarfod ar 14 Medi 2020. Rydym yn parhau i dderbyn y gallai fod rhesymau dilys dros y toriadau hyn, ac rydym yn cydnabod bod mwyafrif y rheoliadau a enwir uchod yn ymwneud â chyfyngiadau teithio rhyngwladol brys o ganlyniad i bandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae llunio Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020 yn un achlysur o'r fath lle nad yw'r cyfiawnhad dros dorri'r rheol 21 diwrnod wedi'i egluro'n briodol, ac rwy'n ysgrifennu ar wahân mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Byddwn yn parhau i fonitro amlder ac amgylchiadau torri'r rheol 21 diwrnod yn y dyfodol.

Yn gywir

Mick Antoniw AS
Cadeirydd

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English